

Datganiad Grant Amddifadedd Ysgol GYMRAEG MORSWYN

Diben y Grant Amddifadedd Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (hPYD). Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at welliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Fel ysgol rydym am ddysgu o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt trwy:

1. gynllunio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig, ac sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan yr ymyriad, gan fonitro cynnydd disgyblion yn gyson a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.
2. integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GAD i'n Cynllun Datblygu Ysgol, gan selio arferion ar dystiolaeth dda a'u cynnwys fel rhan o strategaeth ysgol gyfan.
3. gydbwysu ymyriadau ysgol gyfan ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael budd fel unigolyn a bod yr ysgol gyfan yn meithrin ei gallu i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.

Yn 2016-17 rhoddwyd i Ysgol **GYMRAEG MORSWYN** ddyraniad Grant Amddifadedd disgyblion o **£22,595**

Yn Ysgol **GYMRAEG MORSWYN** mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Ynys Mon a GwE, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- Sicrhau fod plant PYD yn cael addysg mewn grwpiau targed yn dilyn amserlen bendant bob wythnos i sicrhau fod eu canlyniadau yn gyfartal neu gwell a phlant heb PYD.
- Roi ymyraeth addas ac effeithiol mewn lle sydd yn cael effaith positif ar ganlyniadau Rhifedd a Llythrennedd y disgyblion.
- Cyflogi athrawes i wneud y gwaith uchod.

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.